# CITING - Beth yw'r broses o enwi?

**Rhaid cwyno o fewn**

**7**

**Diwrnod**

Gall person gael ei enwi, os yw'r digwyddiad honedig wedi ei weld gan un o'r tîm dyfarnu neu beidio.


Gellir ystyried troseddau, sy'n groes i Reol 9, sy'n cyrraedd trothwy cerdyn coch.

Bydd y cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r Chwaraewr neu Glwb sy'n enwi gwrthwynebydd i brofi y byddai cerdyn coch wedi cael ei ddangos am y drosedd honedig – pe byddai'r tîm dyfarnu wedi gweld y digwyddiad.

Os mai dangos cerdyn melyn oedd penderfyniad y dyfarnwr am y drosedd ar y pryd, bydd y cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r Chwaraewr neu Glwb sy'n enwi gwrthwynebydd i brofi y dylid fod wedi dangos cerdyn coch.

Bydd angen digon o dystiolaeth i sefydlu achos prima facia.

# CITING
# Y BROSES O ENWI GWRTHWYNEBYDD




Cyfeirio'n benodol at **Rheol – World Rugby Rheol 9 – Chwarae Brwnt.**

Darparu disgrifiad llawn o'r digwyddiad.

Casglu datganiad gan y dioddefwr – yn disgrifio'r digwyddiad.

Darparu tystiolaeth feddygol. Gall hyn gynnwys lluniau'n dangos yr anafiadau.

Datganiadau chwaraewyr neu lygad-dystion..

**Datganiad Tyst.**
Mae enghreifftiau i'w cael ar Game Locker Undeb Rygbi Cymru.

Tystiolaeth fideo i gefnogi'ch achos.

**Ffurflen Enwi Swyddogol:**
Ar gael ar Game Locker Undeb Rygbi Cymru.